Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru

23 Mawrth 2018

Annwyl Andrew,

Caffael Cyhoeddus

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Mawrth yn rhoi rhagor o wybodaeth yn dilyn eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 5 Mawrth.

Yn ssil ein canfyddiadau, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru, a gaiff ei gynnal ar hyn o bryd. O gofio bod yr adolygiad hwn yn parhau ac y disgwylir iddo adrodd yn ôl ar ei ganfyddiadau yn ddiweddarach eleni, byddai'n gynamserol i'r Pwyllgor ddod i gasgliadau ar hyn o bryd. Rydym wedi cytuno i ddychwelyd at y mater hwn unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau a byddwn yn ystyried canlyniadau'r adolygiad hwnnw maes o law. Roedd ehangder posibl y materion sydd angen eu hystyried drwy'r adolygiad wedi tynnu ein sylw, a hynny o fewn cyfyngiadau amser heriol yn ôl pob golwg, ar ôl dechrau araf.

Mae llawer i'w ennill drwy wneud y mwyaf o botensial gwariant caffael blynyddol y sector cyhoeddus, sy'n werth £6 biliwn, a thrwy drawsnewid caffaeliad cyhoeddus yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n ymddangos yn glir bod cryn ffordd i fynd cyn gwireddu'r potensial hwn yn llawn, am nifer o resymau. Mae hefyd yn glir y bydd angen cryn waith datblygu a sicrhau consensws er mwyn symud ymlaen mewn ffordd wirioneddol gydweithredol ac ymateb i rai o'r pryderon a godwyd ynghylch y dull a ddefnyddiwyd gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol hyd yn hyn.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

O ystyried y manteision posibl, rydym yn cymryd yn ganiataol y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen i lywio'r gwaith adolygu yn ddigonol. Rydym yn cydnabod y bydd penderfyniadau eraill y bydd angen eu gwneud wedyn ynghylch ariannu gwasanaethau yn y dyfodol.

Fel y nodwyd gennych yn eich tystiolaeth lafar, roeddech eisoes wedi ystyried peth o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor gan gyrff cyhoeddus eraill. Credwn y gall y dystiolaeth hon, ochr yn ochr â'ch proses ymgysylltu eich hun â rhanddeiliaid, lywio'r broses adolygu. Nodwn sefydlu'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid. Fodd bynnag, byddem yn croesawu eglurhad o sut y bydd yr adolygiad yn sicrhau ei fod yn ystyried barn y corff ehangach o randdeiliaid y sector cyhoeddus, gan gynnwys aelodau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a'r rhai nad ydynt yn aelodau. Er enghraifft, beth yw'r disgwyliadau ar aelodau'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid o ran ymgysylltu yn eu sectorau. Roeddem hefyd yn pryderu bod CLlLC wedi bod yn archwilio rhai materion ar sail sector heb fawr o ymgysylltiad, yn ôl pob tebyg, â Llywodraeth Cymru hyd yn hyn. Rydym yn nodi eich ymrwymiad i ddod â gwaith o'r fath i'r broses adolygu ehangach.

Gan adeiladu ar argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, credwn ei bod yn bwysig sefydlu'n glir y rhesymau pam mae cyrff cyhoeddus yn dewis prynu drwy drefniadau consortia eraill, neu drwy eu trefniadau lleol eu hunain, yn hytrach na thrwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Er enghraifft, o ran y gwariant o £60miliwn trwy Wasanaethau Masnachol y Goron, mae'n bosibl y gallai hynny fod yn dod o dan fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Rydym yn croesawu eich cydnabyddiaeth y bydd model ariannol a chymhellol i'r gwasanaeth yn allweddol wrth sicrhau ymgysylltiad yn y dyfodol. Ymddengys fod pryderon tebyg o ran y defnydd anghyson o offer ac adnoddau e-gaffael, sydd hefyd angen ymchwiliad pellach.

Yn olaf, mae'r aelodau wedi mynegi rhai pryderon penodol ynghylch materion recriwtio a chadw a chapasiti caffael a gallu yn gyffredinol yng Nghymru. Mae'n amlwg bod cystadleuaeth sylweddol am weithwyr caffael proffesiynol rhwng cyrff cyhoeddus (sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli) a chyda'r sector preifat. Fe nodwyd yn eich tystiolaeth lafar fod adeiladu capasiti a gallu yn rhan greiddiol o gwmpas y broses adolygu, er ein bod wedi nodi nad yw'r materion hyn yn ymddangos yn benodol yn y cylch gorchwyl.

Mae eich llythyr yn nodi bod asesiad i ganfod a oes ddiffyg staffio ai peidio yn dibynnu ar ba ddull meincnodi a ddefnyddir. Rydym yn derbyn mai dim ond rhan

o'r darlun y gall unrhyw fformiwla syml ei gyfleu, ond nodir hefyd bod datganiad polisi caffael Llywodraeth Cymru ei hun yn awgrymu mai un gweithiwr caffael proffesiynol am £10 miliwn o wariant y dylid ei ddefnyddio fel meincnod cychwynnol wrth edrych ar draws y sector cyhoeddus ehangach. Yn seiliedig ar y dadansoddiad a nodir yn eich llythyr, byddai hyn yn awgrymu diffyg sylweddol o tua 274 o staff caffael cymwys. Beth bynnag fo'r niferoedd, mae'n amlwg bod angen ystyried her ehangach o ran gallu ar gyfer y broses adolygu. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i'r gweithwyr caffael proffesiynol ac eraill sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau caffael, feddu ar y sgiliau a'r meddylfryd angenrheidiol i wneud caffael yn wahanol yng nghyd-destun polisi a deddfwriaeth berthnasol Llywodraeth Cymru.

Edrychwn ymlaen at ganlyniadau'r adolygiad a chlywed gennych eto cyn bo hir. Hoffem wneud cais i Lywodraeth Cymru, ar ôl cwblhau'r adolygiad, roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau perthnasol mewn ymateb i'r argymhellion a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei ddau adroddiad (boed y rhain yn rhan o'r broses adolygu ei hun neu fel arall).

Yn gywir,

Nick Ramsay AC
Cadeirydd